



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru

Penodi Aelodau 2021

**Dyddiad cau: 09 Medi 2021
am 16:00**



**The Commissioner for
Public Appointments**

Cynghorau lechyd Cymuned

Cynnwys

Gwneud cais

Atodiad A: Rôl Aelodau Cynghorau lechyd Cymuned

Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorau lechyd Cymuned

Atodiad C: Y broses ddethol

Atodiad D/E: Ardaloedd Cynghorau lechyd Cymuned a'u pwyllgorau lleol

Cynghorau Iechyd Cymuned

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb mewn bod yn aelod o'ch Cyngor Iechyd Cymuned lleol. Mae aelodau Cynghorau Iechyd Cymuned yn cynrychioli safbwynt y cyhoedd o ran y gwasanaeth iechyd yn eu hardal gan ddylanwadu ar y ffordd y mae gwasanaethau'r GIG yn cael eu cynllunio a'u darparu yng Nghymru, a gwella hyn. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion ynghylch rôl yr aelod a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Cynghorau Iechyd Cymuned a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar y swydd wag Cyngor Iechyd Cymuned ac yna cliciwch y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith sydd angen ichi gofrestru a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon trwy eich cyfrif.

Pan fyddwch wedi cofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen i chi lanlwytho datganiad personol i'r adran 'Rhesymau dros ymgeisio' o'r ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Chi fydd yn penderfynu sut y byddwch yn cyflwyno'r wybodaeth. Er hynny, fe ddylech geisio darparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae'ch gwybodaeth a'ch profiad yn bodloni pob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich rôl wrth gyflawni canlyniadau penodol. Byddai hefyd o fudd i'r panel dethol pe baech yn nodi'n glir i ba faen prawf y mae'r dystiolaeth yn perthyn. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Ni ddylai eich datganiad personol fod yn hwy na dwy dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

Nodwch ein bod yn ceisio penodi aelodau i'r holl ardaloedd Cyngor Iechyd Cymuned yng Nghymru (gweler Atodiad D).

Amserlen fras

| | |
|------------------|--|
| Dyddiad cau: | 09 Medi 2021 |
| Creu rhestr fer: | yr wythnos yn dechrau 20 Medi 2021 |
| Cyfweliadau: | yr wythnos yn dechrau 22 Tachwedd 2021 |

Corff Llais y Dinesydd

Fel y gwyddoch o bosibl, mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn cynnwys darpariaeth a fydd, pan ddônt i rym, yn disodli'r Cynghorau Iechyd Cymuned â Chorff newydd: Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Rhagwelir y bydd y Corff newydd yn dechrau gweithredu ym mis Ebrill 2023. Yn unol â nodau Gweinidogion Cymru i integreiddio

Cynghorau Iechyd Cymuned

iechyd a gofal cymdeithasol, bydd y Corff newydd yn gyfrifol am gynrychioli safbwyntiau pobl ar draws y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd y Corff newydd yn rhedeg cynllun gwirfoddoli, a bydd cyfleoedd i aelodau Cynghorau Iechyd Cymuned wirfoddoli ar gyfer y Corff newydd, er mwyn sicrhau na chaiff profiadau gwerthfawr eu colli a bod y Corff newydd yn gallu manteisio ar gefnogaeth gyson.

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai aelodau cyrff cyhoeddus adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i ymgeisio am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ac sydd â phrofiad ymarferol, gan gynnwys pobl anabl, menywod, pobl dan 30 oed, pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, a phobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig. (Mae pobl o leiafrifoedd ethnig yn cyfeirio at bobl sy'n byw mewn lleoedd lle mae mwyafrif y bobl eraill o hil wahanol. Ac fel arfer mewn niferoedd llai. Mae'n cynnwys rhai pobl sy'n Sipsiwn, Roma neu'n Deithwyr).

Cynllun Gwarantu Cyfweiliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl sydd ag anabledau. Mae'r cynllun yn gwarantu cyfweiliad i bobl anabl os ydynt yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn eich galluogi i nodi unrhyw anghenion penodol sydd gennych neu offer penodol all fod ei angen arnoch os cewch wahoddiad i gael cyfweiliad.

Manylion Cyswllt:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am swyddogaeth aelodau, cysylltwch â Bwrdd y CICau ar: ☎ 02920 235558 neu ✉ enquiries@waleschc.org.uk neu ewch i'r wefan [Cyngor Iechyd Cymuned/Community Health Council \(wales.nhs.uk\)](http://CyngorIechydCymuned/CommunityHealthCouncil(wales.nhs.uk))

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch i wneud cais am y swydd hon, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

Penodi aelod i'r Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Beth mae aelodau'n ei wneud?

- Siarad â chleifion a'r cyhoedd a'u hannog i rannu eu sylwadau a'u profiadau o wasanaethau'r GIG
- Adrodd sylwadau a phrofiadau'r cleifion a'r cyhoedd mewn ffordd glir a chytbwys
- Cynrychioli safbwynt y cleifion a'r cyhoedd mewn cyfarfodydd gyda'r rhai sy'n cynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG
- Edrych ar gynlluniau a chynigion lleol i newid gwasanaethau

Manyleb y Person

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y priodoleddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf hanfodol ar gyfer penodi.

Nid oes angen i aelodau fod yn arbenigwyr ar waith y GIG. Rydym yn chwilio am unigolion o bob cefndir sydd â diddordeb gwirioneddol mewn helpu eu cymunedau lleol i wella'r gwasanaethau y mae'r GIG yn eu darparu.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr arddangos dealltwriaeth glir o'r canlynol, ac ymrwymiad iddynt:

- materion cydraddoldeb ac herio arferion sy'n gwahaniaethu
- 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus' Nolan. Mae dolen gyswllt isod:

<https://www.gov.uk/government/publications/the-7-principles-of-public-life>

Disgwylir i aelodau'r Cyngor Iechyd Cymuned gadw at God Ymddygiad ar gyfer aelodau'r Cyngor Iechyd Cymuned. Mae'r Cod yn ymwneud â materion fel gwerthoedd y Cyngor Iechyd Cymuned, ymddygiad personol, cyfrinachedd a chyfle cyfartal. Mae dolen gyswllt isod i god ymddygiad Aelodau'r Cynghorau Iechyd Cymuned: Ymdrin â honiadau o dorri'r cod yn ystod pandemig y coronafeirws – Ebrill 2020:

<https://gogleddcymrucic.gig.cymru/files/temporary-2020-code-of-conduct-procedure-welsh-pdf/>

Meini Prawf Hanfodol

Bydd angen i aelodau ddangos:

- diddordeb **gwirioneddol** mewn gwranddo ar eraill a meddu ar **sgiliau cymdeithasol** cryf iawn

Cynghorau Iechyd Cymuned

- gallu i **gynrychioli** eraill mewn ffordd **gytbwys**
- gallu i uniaethu â phobl o **wahanol** gefndiroedd
- gallu i weithio'n **effeithiol** fel rhan o **dîm**

Y Gymraeg

Mae'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn **ddymunol ond nid yw'n hanfodol ar gyfer y swyddi hyn**. Fodd bynnag, mae disgwyl i bob ymgeisydd ddangos eu bod yn deall natur ddwyieithog Cymru ac egwyddorion Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, *Mwy na Geiriau*. Mae hyn yn cynnwys, yn benodol:

- Pwysigrwydd darparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol yn y sector iechyd;
- Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- Hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg drwy egwyddor y cynnig rhagweithiol.

Ffeithiau allweddol am y swydd

| | |
|--------------------------|---|
| Lleoliad: | Mae 7 Cyngor Iechyd Cymuned lleol yng Nghymru. Gweler Atodiad D am fwy o fanylion |
| Ymrwymiad Amser: | 3-5 diwrnod y mis |
| Hyd y penodiad: | Bydd y penodiadau am gyfnod rhwng 1 a 4 blynedd. Fodd bynnag, daw'r penodiadau i ben pan gaiff Cynghorau Iechyd Cymuned eu diddymu. Bydd cyfleoedd i aelodau presennol y Cynghorau wirfoddoli ar gyfer Corff Llais y Dinesydd, sef y corff newydd, y disgwylir iddo gael ei sefydlu ym mis Ebrill 2023. |
| Taliadau cydnabyddiaeth: | Gwirfoddolwyr yw aelodau'r Cynghorau Iechyd Cymuned. Ar ôl cael eu penodi, gall aelodau hawlio costau teithio a threuliau eraill o fewn rheswm yn unol â pholisïau'r Cynghorau. |

Ar 1 Mehefin 2020, daeth [Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol \(Ansawdd ac Ymgysylltu\) \(Cymru\) 2020](#) yn gyfraith. Mae un rhan o'r Ddeddf yn diddymu Cynghorau Iechyd Cymuned â chorff newydd, sef Corff Llais y Dinesydd, a fydd yn cynrychioli buddiannau pobl ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Rhagwelir y bydd y Corff yn cael ei sefydlu ym mis Ebrill 2023, a'i nod fydd:

- cryfhau llais y dinesydd yng Nghymru mewn materion sy'n ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan sicrhau bod gan ddinasyddion ddull effeithio o sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu clywed;
- sicrhau bod unigolion yn cael cefnogaeth gyda chyngor a chymorth wrth wneud cwyn mewn perthynas â'u gofal
- defnyddio profiad defnyddwyr gwasanaeth i ysgogi gwelliannau.

Cynghorau Iechyd Cymuned

Caiff y sefydliad newydd hwn ei sefydlu fel corff cenedlaethol, ond bydd wedi'i strwythuro mewn ffordd a fydd yn ei alluogi i gyflawni ei swyddogaethau ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Pwy sy'n cael gwneud cais

Mae rhai pobl nad ydynt yn gymwys i fod yn aelod o Gyngor Iechyd Cymuned. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Pobl sydd wedi eu cael yn euog o drosedd yn ystod y 5 mlynedd diwethaf ac sydd wedi treulio cyfnod o 3 mis neu fwy yn y carchar (yn ddedfryd ohiriedig ai peidio)
- Methdalwyr heb eu rhyddhau
- Pobl sydd wedi'u diswyddo o waith cyflogedig gyda'r gwasanaeth iechyd (ar wahân i ddileu swydd) neu sydd wedi'u diswyddo o benodiad cyhoeddus yn y gwasanaeth iechyd
- Cadeiryddion, aelodau, cyfarwyddwyr neu weithwyr cyflogedig corff gwasanaeth iechyd sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar bobl sy'n byw yn yr un ardal â'r Cyngor Iechyd Cymuned. Fodd bynnag, gallant ymgeisio i fod yn aelod o Gyngor Iechyd Cymuned mewn ardal arall
- Aelodau Cyngor Iechyd Cymuned arall
- Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol neu Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol, Fferyllwyr Cofrestredig, Optometryddion Cofrestredig neu Optegwyr Cyflenwi Cofrestredig, Bydwagedd neu Nyrsys Cofrestredig sy'n gweithio yn yr un ardal â'r Cyngor Iechyd Cymuned. Fodd bynnag, gallant ymgeisio i fod yn aelod o Gyngor Iechyd Cymuned mewn ardal arall
- Aelodau mewn swydd o'r Senedd, Tŷ'r Cyffredin a/neu Senedd Ewrop.
- Yn sgil atal y broses penodiadau cyhoeddus yn 2020 oherwydd pandemig COVID-19, gwnaeth Gweinidogion Cymru Reoliadau a oedd yn dileu'r gofyniad mai'r cyfnod hwyaf o wasanaeth y gall person ei wneud ar Gyngor Iechyd Cymuned yw 8 mlynedd. Ar hyn o bryd, ni cheir uchafswm hyd cyfnod y gall person wasanaethu fel aelod o Gyngor Iechyd Cymuned, ond rhaid ceisio caniatâd y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus cyn y gall person wasanaethau mwy na dau dymor ar wahân fel aelod. Daw holl benodiadau aelodau Cynghorau Iechyd Cymuned i ben pan gaiff y Cynghorau Iechyd Cymuned eu diddymu, ond, fel y nodir uchod, caiff aelodau'r Cynghorau Iechyd Cymuned y cyfle i wirfoddoli gyda Chorff Llais y Dinesydd newydd a fydd yn disodli'r Cynghorau Iechyd Cymuned.
- Dylai'r ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd ar bob adeg. Yn benodol, rhaid i'r ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn gwybod am unrhyw beth yn eu bywydau preifat neu broffesiynol a allai achosi embaras iddynt hwy neu i Lywodraeth Cymru pe deuai hynny'n hysbys ar ôl eu penodi.

Cynghorau Iechyd Cymuned

- Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn destun archwiliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (sef archwiliad Swyddfa Cofnodion Troseddol gynt) ar ôl eu penodi. Ceir rhagor o wybodaeth yma am y [Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd](#). Gall hyn fod yn berthnasol i unrhyw un fyddai o bosib yn dod i gysylltiad â phlant neu oedolion sy'n agored i niwed o ganlyniad i'w penodiad. Ni fyddwn yn cadarnhau penodiadau hyd nes y bodlonir y gwiriadau/gofynion hynny.

Gwrthdaro Buddiannau

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod o Gyngor Iechyd Cymuned gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl yn y Cyngor Iechyd Cymuned.

Bydd unrhyw achos o wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweiliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd gofyn i chi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n llwyddo i basio'r sifft a chael cyfweiliad. Bydd hyn yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu o reidrwydd i chwiliadau ar y rhyngwrdd a'r cyfryngau cymdeithasol. O ganlyniad, mae'n bosibl y gofynnir cwestiynau i chi yn y cyfweiliad mewn perthynas ag unrhyw ganfyddiadau diwydrwydd dyladwy.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl i chi arddangos safonau uchel o ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gadw at y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus, ac fe allwch weld y ddogfen hon yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/809093/Code-of-Conduct-for-Board-Members-of-Public-Bodies-2019-WEB.PDF.

Rôl a chyfrifoldebau'r Cyngor Iechyd Cymuned

Cefndir

Mae Cynghorau Iechyd Cymuned yn gyfrifol am gynrychioli buddiannau cleifion a'r cyhoedd yn annibynnol a diduedd er mwyn dylanwadu ar y ffordd y caiff gwasanaethau iechyd cenedlaethol eu cynllunio a'u darparu yng Nghymru, a gwella hyn. Gwirfoddolwyr lleol yw aelodau'r Cynghorau, sy'n gweithredu fel llygaid a chlustiau cleifion a'r cyhoedd, gan wrando ar farn pobl am y gwasanaeth iechyd, a chynorthwyo pobl sydd eisiau rhannu pryder ynglŷn â'r gwasanaeth iechyd a gweithio gyda'r gwasanaeth iechyd i wella ansawdd gofal i gleifion.

Cynghorau Iechyd Cymuned - strwythur sefydliadol

Mae saith Cyngor o'r fath yng Nghymru, pob un yn gyfrifol am ardal ddaearyddol benodol. Mae'r ardaloedd daearyddol hyn yn cyd-fynd â'r saith Bwrdd Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am lunio a darparu gwasanaethau'r GIG yn yr ardal honno (gweler atodiadau D ac E).

Caiff pob Cyngor ei gefnogi gan dîm bach o staff cyflogedig, yn ogystal ag aelodau awdurdod lleol, y trydydd sector a gwirfoddolwyr. Mae Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn goruchwyllo'r saith Cyngor.

Gyda'r Cynghorau'n cynrychioli lleisiau cleifion yn eu hardal lleol, mae'r Bwrdd yn cynrychioli llais y cleifion a'r cyhoedd ar lefel genedlaethol. Y Bwrdd sy'n gosod y safonau cenedlaethol y mae'n rhaid i'r Cynghorau eu cyrraedd, ac mae'n rhaid iddo ddarparu cyngor, canllawiau a chymorth. Mae hefyd yn gyfrifol am fonitro a rheoli eu perfformiad.

Mae Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru:

- yn gwrando'n barhaus ar yr hyn sydd gan unigolion a'r gymuned i'w ddweud am eu GIG
- yn llais i'r cyhoedd drwy hysbysu arweinwyr a rheolwyr y GIG am yr hyn y mae pobl ei eisiau a sut gellir gwella pethau
- yn meithrin perthynas dda â gwasanaethau lleol y GIG
- yn ymgynghori'n uniongyrchol â'r cyhoedd ynghylch materion penodol; a throsglwyddo barn y cyhoedd i'r GIG
- yn rhoi help, cyngor a chymorth i bobl sydd am leisio pryder ynghylch gwasanaethau'r GIG.

Cynghorau Iechyd Cymuned

Beth mae aelodau'r Cynghorau Iechyd Cymuned yn ei wneud?

Mae rhai o weithgareddau'r Cynghorau, megis cefnogi unigolion i leisio pryder, yn cael eu gwneud gan staff y Cynghorau. Rôl aelodau'r Cynghorau yw cynnig safbwynt y cyhoedd. Mae'r aelodau'n ymwneud â'r gweithgareddau canlynol:

- **ymweld** â gwasanaethau iechyd lleol a **chraffu** arnynt, gan gynnwys:
 - ymweld â meddygfeydd, clinigau ac ysbytai a gwranddo ar farn a phrofiadau cleifion, gofalywyr a staff
 - bod yn rhan o bwyllgorau a gweithgorau sydd wedi'u sefydlu i fonitro ac adolygu perfformiad y GIG
 - darllen a rhoi sylwadau ar amrywiaeth eang o ddogfennau'r GIG.
- **ymgysylltu'n barhaus** â'r cymunedau maent yn eu cynrychioli a'r rheini sy'n darparu'r gwasanaethau iechyd yn y cymunedau hynny.
- **cynrychioli** buddion cleifion a'r cyhoedd o ran cynllunio a chytuno ar **newidiadau i wasanaethau'r GIG**.

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu datganiadau personol yr ymgeiswyr i benderfynu pa mor addas ydynt ar gyfer y rôl. Yn sgil pandemig y coronafeirws, cynhelir pob cyfweliad yn rhithiol drwy MS Teams neu drwy alwad ffôn. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad personol i asesu a oes gan berson y sgiliau a'r profiad angenrheidiol. Byddwch cystal â sicrhau eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol yn cael ei gadeirio gan Swyddog Llywodraeth Cymru a bydd hefyd yn cynnwys cadeirydd/is-gadeirydd y cyngor iechyd cymuned lleol perthnasol ac aelod annibynnol.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, gallai eich cais gael ei roi ar restr hir, cyn iddo gael ei anfon ymlaen at y panel a fydd yn tynnu'r rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod Hydref pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf a fydd, ym marn y panel, wedi dangos orau eu bod yn bodloni'r meini prawf ym manyleb y person fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Er hynny, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, byddwch hefyd yn cael eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac os nad ydy dyddiad y cyfweliad wedi'i ddarparu eisoes yn y pecyn gwybodaeth, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi. Os na fyddwch yn gallu dod i'r cyfweliad a drefnir, byddwn yn gwneud ein gorau i ail-drefnu. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd y cyfyngiadau amser yn yr amserlen ar gyfer penodi, a bydd yn dibynnu hefyd ar argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan y system Penodi i roi gwybod i chi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a bennwyd ar gyfer y rôl.

Bydd yr ymgeiswyr sy'n addas i'w penodi ym marn y panel yn cael eu hargymell i Weinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os bydd yn dewis gwneud hynny, bydd yn cyfarfod â phob ymgeisydd ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y broses.

Cynghorau Iechyd Cymuned

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n aelod o'r cyngor iechyd cymuned, gan gadarnhau'r telerau ar gyfer cynnig y penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweiliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i chi. Rydym yn gwerthfawrogi ei bod yn cymryd llawer o amser ac ymdrech i wneud cais am swydd a bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth am eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau

Oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Cynghorau lechyd Cymuned

Atodiad D: Ardaloedd daearyddol Cynghorau lechyd Cymuned Cymru

Mae saith Cyngor o'r fath yng Nghymru, pob un yn gyfrifol am ardal ddaearyddol benodol. Mae'r ardaloedd daearyddol hyn yn cyd-fynd â'r saith Bwrdd lechyd Lleol sy'n gyfrifol am lunio a darparu gwasanaethau'r GIG yn yr ardal honno (gweler isod).



Cynghorau lechyd Cymuned

Atodiad E: Cynghorau lechyd Cymuned a'u pwyllgorau lleol

| Enw'r Cyngor lechyd Cymuned | | Pwyllgorau Lleol yn y Cyngor lechyd Cymuned |
|------------------------------------|---|--|
| 1 | Cyngor lechyd Cymuned Aneurin Bevan | i. Blaenau Gwent ii. Caerffili iii. Casnewydd iv. Mynwy v. Torfaen |
| 2 | Cyngor lechyd Cymuned Betsi Cadwaladr (Cyngor lechyd Cymuned Gogledd Cymru fel y caiff ei adnabod yn lleol) | i. Ynys Môn ii. Sir Ddinbych iii. Conwy iv. Sir y Fflint v. Gwynedd vi. Wrecsam |
| 3 | Cyngor lechyd Cymuned Caerdydd a Bro Morgannwg (Cyngor lechyd Cymuned De Morgannwg fel y caiff ei adnabod yn lleol) | i. Caerdydd ii. Bro Morgannwg |
| 4 | Cyngor lechyd Cymuned Cwm Taf Morgannwg | i. Merthyr ii. Rhondda Cynon Taf iii. Pen-y-bont ar Ogwr |
| 5 | Cyngor lechyd Cymuned Hywel Dda | i. Sir Gaerfyrddin ii. Ceredigion iii. Sir Benfro |
| 6 | Cyngor lechyd Cymuned Powys | Ardal Sir Faesyfed a Brycheiniog a Sir Drefaldwyn sy'n rhan o Brif Ardal Llywodraeth Leol Powys, gan gynnwys cymunedau Llanrhaeadr-ym-mochnant, Llansilin a Llangedwyn |
| 7 | Cyngor lechyd Cymuned Bae Abertawe | i. Castell-nedd Port Talbot ii. Abertawe |